**Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Ymchwiliad Gefnogi Entrepreneuriaeth**

**Cofnodion y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd am 11:30am ar 7 Mawrth 2018**

**Ystafell Gynadledda A – Llawr Gwaelod, Tŷ Hywel**

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Janet Finch-Saunders AC | Cadeirydd |
| Hannah Moscrop | Swyddfa Janet Finch-Saunders AC |
| Edward Woodall | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Sue Thompson | Prince's Trust Cymru |
| David Hagendyk | Y Sefydliad Dysgu a Gwaith |
| Andrew Highway | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Meurig Watts | Llywodraeth Cymru |
| Martin Kearsley | Swyddfa'r Post |
| Stuart Taylor | Swyddfa'r Post |
| Geraint Strello | Grŵp BT |
| Mark Isherwood AC | Aelod |
| Russell George AM | Aelod |
| Mandy Jones AC | Aelod |

**YMDDIHEURIADAU:**

| | |
|---|---|
| Vikki Howells AC | Is-gadeirydd |
| Steve Dowling | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Tim Pratt | Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru |

1. **Croeso a chyflwyniad**

Agorodd Janet Finch-Saunders (JFS) y cyfarfod a chroesawodd y rhai a oedd yn bresennol. Cyfeiriodd JFS at y ffaith fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi cynnal digwyddiad ardderchog yn ddiweddar yn y Senedd i lansio Adroddiad Siopau Lleol Cymru y Gymdeithas Siopau Cyfleustra.

Rhoddodd JFS drosolwg o'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad Cefnogi Entrepreneuriaeth ac eglurodd y byddai sesiwn dystiolaeth heddiw yn canolbwyntio ar yr elfennau pobl a lleoedd. Gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol i gyflwyno eu hunain a'u sefydliadau.

2. **Panel Pobl**

Sue Thompson (ST) o Prince's Trust a David Hagendyk (DH) o'r Sefydliad Dysgu a Gwaith oedd y prif sefydliadau a oedd yn rhoi tystiolaeth yn y sesiwn hon.

Cafwyd trafodaeth helaeth am yr angen i ganolbwyntio ar gyflwyno sgiliau meddal i bobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys sgiliau pobl a rheoli amser sy'n hanfodol ar gyfer rhedeg busnes neu fod yn entrepreneuraidd.

Amlinellodd ST sut mae Prince's Trust yn cyflwyno hyn drwy ei Raglen Fenter, sy'n cynnwys mentora a chymorth parhaus i ymgeiswyr weld a yw hunangyflogaeth yn briodol iddyn nhw.

Awgrymodd DH fod y ddadl sgiliau yn canolbwyntio gormod ar y system prentisiaethau presennol. Mae'r system prentisiaethau yn canolbwyntio ar sector yn ormodol ac nid yw'n diwallu’r angen am gyflwyno sgiliau.

Awgrymodd DH fod angen ymestyn y ddadl sgiliau i gwmpasu pob oedran ac nid pobl ifanc yn unig. Mae sawl newid mewn gyrfa ym mywydau gwaith pobl e.e. ar ôl absenoldeb mamolaeth neu ymrwymiadau gofal plant neu symud tŷ. Sut mae'r system yn ceisio llenwi bylchau sgiliau ar hyn o bryd pan fydd y digwyddiadau bywyd hyn yn digwydd?

Cafwyd trafodaeth am yr adnoddau sydd ar gael i helpu pobl i ystyried dechrau eu busnes eu hunain. Nid oes gan Gyrfa Cymru yr adnoddau i gynorthwyo gyda thwf busnes ac nid oes gan Busnes Cymru adnoddau penodol ar gyfer twf busnes. Awgrymodd ST fod angen gwneud mwy i gydweddu anghenion unigol gyda chyfleoedd.

Awgrymwyd nad oes digon o ffocws ar hyfforddiant galwedigaethol ac entrepreneuraidd mewn ysgolion, gan gynnwys cyflwyno sgiliau meddal. Un o'r rhwystrau a nodwyd oedd bod ysgolion yn cael eu gwobrwyo ar sail canlyniadau arholiadau a chyfran y myfyrwyr sy'n mynd i'r brifysgol. Cafwyd cefnogaeth gref i fwy o fentora busnes ar gyfer pobl ifanc a ffocws ar addysg ariannol mewn ysgolion.

### 3. Panel Lleoedd

Rhoddodd Andrew Highway (AH) o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Meurig Watt (MW) o Lywodraeth Cymru, Martin Kearsley (MK) o'r Swyddfa Bost a Geraint Strello (GS) dystiolaeth i'r panel hwn.

Rhoddodd AH gefndir ei waith ar reoli canol trefi. Nododd AH fod canol pob tref yn wahanol ond y pethau allweddol a all helpu yw deall data nifer yr ymwelwyr, cyfathrebu newidiadau deddfwriaethol a digwyddiadau canol tref a masnachwyr sy'n ymgysylltu â'r gymuned gyfan.

Mae AH wedi datblygu cyfeiriadur o eiddo gwag gyda manylion cyswllt y landlord / deiliad prydles i helpu buddsoddwyr newydd chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi. Ar gyfer y canol trefi y bu'n gweithio â nhw roedd ffocws ar ddatblygu hunaniaeth a brandio canol trefi.

Nododd MW fod cronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £110 miliwn dros dair blynedd tuag at adfywio canol trefi. Yr elfen allweddol i ganol tref llwyddiannus oedd cynyddu nifer yr ymwelwyr. Roedd arian Llywodraeth Cymru wedi'i dargedu ar rai canolfannau trefi ac nid cefnogi pob tref oedd ei bwriad. Roedd angen mwy o arian i gynorthwyo gwaith adfywio.

Amlinellodd MK o'r Swyddfa Bost y berthynas rhwng y Swyddfa'r Post â'r Llywodraeth a'r gofyniad bod Swyddfa Bost ym mhob cymuned. Amlinellodd MK rôl bwysig Swyddfa'r Post ym mhob cymuned a bod y cyhoedd yn ystyried mai Swyddfeydd Post yw’r gwasanaeth sydd â'r effaith fwyaf positif ar gymunedau lleol.

Nododd MK fod Swyddfa'r Post yn chwarae rôl gadarnhaol wrth alluogi busnesau bach i fasnachu a threfi i ffynnu drwy ehangu ei wasanaethau bancio. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn llenwi bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau bancio ar strydoedd mawr ac mewn cymunedau gwledig.

Tynnodd MK sylw at y ffaith nad oes unrhyw gyfyngiad ar y swm o arian y gellir ei adneuo mewn Swyddfa Bost gan fusnes, os oeddynt wedi gwneud y trefniadau angenrheidiol gyda'r Swyddfa Bost ymlaen llaw.

Nododd GS o BT fod modd i 94 y cant o safleoedd gael band eang ffibr. Roedd darparu band eang ffibr yn ddrud iawn a dyna pam fod cydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i ddarparu band eang ledled Cymru.

4. **Cloi**

Diolchodd JFS i'r cynrychiolwyr a daeth â’r cyfarfod i ben.